Gwybodaeth am Ddiogelwch ar gyfer Grwpiau Addysg

Canolfan Ymwelwyr a Stad Cwm Elan

Fiona Wase
Ceidwad Addysg Amgylcheddol

Medi 2005

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Dŵr Cymru
Welsh Water

Powys

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Datganiad Diogelwch	Mae safle yn derbyn ei gyfrifoldebau o dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn llawn. Mae gennym Bolisi Iechyd a Diogelwch ar waith ac rydym yn paratoi asesiadau risg ysgrifenedig o'n dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â phobl ac eithrio'r gweithwyr (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle hwn ac yn defnyddio ein cyfleusterau. Gallwn eich sicrhau ein bod yn rhoi pwyslais mawr ar ofalu am eich iechyd a'ch diogelwch tra byddwch ar Stad Elan ac rydym am sicrhau bod eich ymweliad yn hwyl, yn braf ac yn brofiad gwerthfawr o ddysgu. Mae grwpiau addysgol yn cael y manylion a ganlyn i'w helpu i wneud eu hasesiad risg eu hunain ar gyfer eu hymweliad addysgol.

Y Cefndir	
Profiad	Bu Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan ar agor i'r cyhoedd ers 1985 a chodwyd estyniad i'r adeilad gwreiddiol ym 1997. Mae'n rhan o stad 70 milltir sgwâr sy'n eiddo i Dwr Cymru Welsh Water ac a freiniwyd i raddau helaeth mewn elusen, Ymddiriedolaeth Cwm Elan. Croesawyd grwpiau addysgol i'r Stad ers 1985 a bu yma Geidwad Addysg Llawn Amser ers 1997.
Rhaglenni Addysg	Cynigir nifer o wahanol raglenni addysg, yn dibynnu ar faint ac oedran y grŵp. Ceir y manylion yn y llyfryn 'Ymweliadau Addysgol â Chwm Elan' neu trwy drafod â'r Ceidwad Addysg.
Nifer yr Ymwelwyr	Bob tymor, mae dros 160,000 o bobl yn dod i'r Ganolfan Ymwelwyr ac rydym yn cael tua chant o ymweliadau gan ysgolion.
Addasrwydd	Cyfrifir bod y Ganolfan Ymwelwyr a'r Stad yn addas ar gyfer disgyblion o bob oed ond mae cyfyngiadau oedran ar rai gweithgareddau. Gallwch drafod hyn gyda'r Ceidwad Addysg.
Trefnu Ymweliad / Manylion Cysylltu	Gofynnir i chi gysylltu â'r Ceidwad Addysg i drefnu dyddiadau a gweithgareddau posibl ac, efallai, i drefnu ymweliad ymlaen llaw cyn anfon eich ffurflen atom yn nodi'r manylion pendant. Rhif ffôn: (01597) 810390 Rhif ffacs: (01597) 811276 Cyfeiriad e-bost: fiona@elanvalley.org.uk Holwch os hoffech gael rhestr o ysgolion sydd eisoes wedi bod yn y ganolfan. Gofynnwn i arweinydd y grŵp ddod i'r Ganolfan Ymwelwyr (y Ddesg Wybodaeth) pan fyddwch yn cyrraedd os na wnaed trefniadau gwahanol. Y rhif ffôn yw (01597) 810898. Ceisiwch roi gwybod i'r Ganolfan os ydych yn debygol o fod yn hwyr iawn yn cyrraedd. Ar ôl yr ymweliad, os bydd gennych ryw bryder neu os bydd problem wedi codi ynghylch rheolaeth y Stad neu iechyd a diogelwch aelodau'ch parti, byddem yn falch o'r cyfle i gael trafod y rhain gyda chi.
Gwybodaeth Gyffredinol	
Cyfrifoldeb am	Rhaid i arweinwyr y grŵp aros gyda'r plant bob amser. Mae'r staff sy'n

Ymddygiad	gofalu am grwpiau addysgol yn gyfrifol am ymddygiad aelodau'r grŵp tra byddant ar Stad Elan. Staff y grŵp sy'n ymweld sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch a lles cyffredinol y grŵp. Ni chaiff y grwpiau: • fynd i rannau o'r safle nad ydynt ar agor i'r cyhoedd • ymddwyn yn afreolus • cyffwrdd â pheiriannau sy'n gweithio • anwybyddu cyfarwyddiadau/gwybodaeth am ddiogelwch a roddir gan staff y safle
Cymarebau Staff: Disgyblion a'r grwpiau mwyaf a ganiateir	Rhaid i bob grŵp ddod â digon o oedolion i oruchwylio'r grŵp. Mae arnom angen 1 oedolyn i bob 8 plentyn ar gyfer gweithgareddau dŵr (fel archwilio pwll) ac 1 oedolyn i bob deg plentyn ar gyfer gweithgareddau eraill. Felly, bydd nifer y disgyblion a ganiateir mewn grŵp yn amrywio yn ôl y gweithgaredd. Gallwch drafod y mater gyda''r Cydgysylltydd Addysg wrth drefnu'ch ymweliad.
Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus/ Atebolrwydd y Cyflogwr)	Mae gennym yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5 miliwn o leiaf. Holwch os hoffech weld manylion ein hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd y Cyflogwr cyn i chi ymweld â ni. Mae copi o'n tystysgrif yswiriant Atebolrwydd y Cyflogwr i'w weld y tu ôl i'r ddesg wybodaeth yn y Ganolfan Ymwelwyr.
Hanes Troseddol	Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio gyda grwpiau addysgol wedi cael gwiriad hanes troseddol. Cafwyd datgeliadau uwch y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer y staff hyn hefyd.
Cymorth Cyntaf	Mae gan y Ceidwaid dystysgrifau cyfredol Cymorth Cyntaf yn y Gweithle ac mae ganddynt becyn Cymorth Cyntaf gyda nhw bob amser wrth arwain grŵp addysgol. Cyfrifoldeb staff y grŵp sy'n ymweld yw sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth benodol y mae ar ddisgybl ei hangen ar gael yn ôl y gofyn. Os bydd angen, dywedir wrth y Ceidwad Addysg am unrhyw gyflwr felly ar y ffurflen wrth drefnu'r ymweliad. Ceir pecyn Cymorth Cyntaf ychwanegol wrth Ddesg Wybodaeth y Ganolfan Ymwelwyr ac yn holl gerbydau'r Ceidwaid.
Ymweliadau ymlaen llaw	Os ydych wedi trefnu i ddod â grŵp i'r ganolfan ac yr hoffai aelod o'r staff sy'n gofalu am yr ymweliad ddod i'r Stad ymlaen llaw i gynnal asesiad risg ac i weld y gweithgareddau a'r offer, dylid trefnu gyda'r Ceidwad Addysg.
Gadael ar Frys	Mae trefniadau gennym ar gyfer gadael y ganolfan ar frys. Mae'r holl staff yn gyfarwydd â'r trefniadau ac yn eu hymarfer yn rheolaidd. Gallant arwain yr ymwelwyr o'r safle yn ddiogel. Ceir Hysbysiadau Ymadael ar Frys yn y mannau a ganlyn: yr Ystafell Addysg, y Ddesg Wybodaeth, y Gegin a Swyddfa'r Ceidwaid. Os clywir y larwm, sef seiren barhaus, mae'n rhaid i'r holl ymwelwyr fynd i'r Man Ymgynnull o flaen y Ganolfan Ymwelwyr, ger cerflun y bardd Shelley. Cynhelir ymarferion ymadael ar frys ac mae'r allanfeydd tân, yr offer

	diffodd tân a'r systemau canfod mwg awtomatig yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Mae Shires Fire and Safety Ltd. yn cynnal archwiliad blynyddol hefyd.
Systemau Cyfathrebu	Mae'r staff yn cario offer cyfathrebu pan fyddant gyda grwpiau addysgol, sef ffôn loeren fel arfer gan fod signal ffonau symudol yn sâl iawn ar bob rhwydwaith. Mae ffonau ychwanegol yn y Ganolfan Ymwelwyr ac mae tair ffôn dalu BT ar y Stad.
Offer yn y Maes Chwarae	Caiff yr holl offer ei archwilio bob wythnos gan staff a hyfforddwyd yn arbennig i wneud yn siwr ei fod yn 'addas at y diben' a chofnodir canlyniadau'r archwiliadau mewn ffeil. Mae'r holl offer chwarae yn y maes chwarae yn cydymffurfio â Safonau cyfredol Prydeinig ac Ewropeaidd ac yn cael eu harchwilio bob blwyddyn. Cyfrifoldeb staff y grŵp sy'n ymweld yw goruchwylio plant sy'n defnyddio'r maes chwarae a thalu sylw i unrhyw hysbysiadau diogelwch.
Ymwelwyr ag Anghenion Arbennig	Mae'r ganolfan yn ceisio diwallu anghenion ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig. Mae'n rhaid i staff sy'n ymweld sicrhau, wrth drefnu'r ymweliad, bod trefniadau addas mewn lle i oruchwylio a helpu plant sydd ag anghenion arbennig. <u>Nam corfforol</u> – Gellir mynd i bob rhan o'r Ganolfan Ymwelwyr mewn cadair olwyn ond mae'n anodd mynd mewn cadeiriau olwyn i rannau eraill o'r stad oherwydd natur y tir. <u>Nam ar y golwg</u> – Ceir sioe glyweledol yn y Ganolfan Ymwelwyr. Mae croeso i ddisgyblion sydd â nam ar y golwg eistedd yn y rhes flaen. <u>Nam ar y Clyw</u> – Mae croeso i ddisgyblion sydd â nam ar y clyw eistedd yn y rhes flaen ar gyfer y sioe. Rydym yn sylweddoli y gall fod angen eglurhad ar ysgolion am y ddarpariaeth benodol wrth baratoi asesiad risg manwl ar gyfer rhai disgyblion. Os felly, mae croeso i ysgolion gysylltu â ni.
Anghenion Meddygol	Dylai'r ysgol neu arweinydd y grŵp gysylltu â'r Ceidwad Addysg os bydd gan ryw ddisgybl gyflwr/anghenion meddygol penodol neu ddifrifol. Bydd angen trafod trefniadau argyfwng. Dylid nodi manylion unrhyw gyflwr o'r fath ar y ffurflen i drefnu'r ymweliad. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, byddwn yn ceisio cynnwys disgyblion sydd â chyflyrau meddygol penodol neu ddifrifol yn yr holl weithgareddau a gynigiwn.
Colli Ffordd	Oherwydd natur y tir a maint y Stad, mae'n holl bwysig bod y grŵp yn aros gyda'i gilydd a bod eich staff yn cyfri pennau yn rheolaidd,
Mynd ar Goll	Gellir gwneud ymholiadau wrth y Ddesg Wybodaeth neu yn Swyddfa'r Ceidwaid yn y Ganolfan Ymwelwyr. Mae ffonau ar gael yn y mannau

	hyn hefyd i alw am help.
Cyfleusterau lles	Mae toiledau (â chyfleusterau i bobl anabl) i'w cael yn y Ganolfan Ymwelwyr. Dylid cofio nad grwpiau addysgol yn unig fydd yn defnyddio'r rhain pan fydd y Ganolfan Ymwelwyr ar agor i'r cyhoedd (canol Mawrth tan ddechrau Tachwedd). Mae set arall, lai, o doiledau ger yr Ystafell Addysg a gall y grwp ddefnyddio'r rhain os byddant yn gweithio yn yr ystafell honno. Mae staff y Stad yn glanhau'r toiledau'n rheolaidd. Does dim toiledau yn y rhan fwyaf o'r mannau y byddwch yn ymweld â nhw ar gyfer y gweithgareddau, er enghraifft y mannau ar gyfer archwilio pwll a'r coetir.
Cyfleusterau Golchi Dwylo	Gofynnir i'r grŵp olchi eu dwylo yn y Ganolfan Ymwelwyr ar ôl dod yn ôl o weithgaredd fel archwilio pwll neu hela bwystfilod bach. Mae'n rhaid gwneud hyn **cyn** i'r grŵp fwyta nac yfed.
Trefniadau Amser Cinio	Mae maes picnic mawr y tu ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr, ger y maes chwarae, i'w ddefnyddio os bydd yn braf. Fel rheol, gellir bwyta cinio yn yr Ystafell Addysg os nad oes modd bwyta yn yr awyr agored – holwch wrth drefnu'ch ymweliad. Mae dŵr ar gael yn yr Ystafell Addysg. Mae caffi yn y Ganolfan Ymwelwyr yn cynnig prydau, byrbrydau a diodydd yn ystod y tymor (canol Mawrth tan ddechrau Tachwedd). Dim ond bwyd a brynir yn y caffi y cewch ei fwyta yno. Os yw grŵp yn dymuno defnyddio'r caffi, mae'n rhaid dweud wrth y Ceidwad Addysg ar y ffurflen i drefnu'r ymweliad.
Siop Anrhegion	Mae siop y Ganolfan Ymwelwyr ar agor rhwng canol Mawrth a dechrau Tachwedd. Os hoffai'r grŵp ymweld â'r siop, mae'n rhaid cynnwys hynny yn rhaglen y diwrnod gan na chaniateir mwy na 15 o ddisgyblion yn y siop ar y tro. Nodwch ar eich ffurflen archebu lle os ydych am ganiatáu amser i fynd i'r siop.
Gwarchod rhag y Tywydd / Haul	Dylid dweud wrth ddisgyblion y gall fod angen rhoi hufen / eli i warchod rhag yr haul ar ddyddiau heulog pan fyddant yn ymweld â'r Stad. Ceir peth cysgod dros y maes picnic y tu ôl i'r Ganolfan Ymwelwyr a chaiff y disgyblion fwyta'u cinio yn yr Ystafell Addysg os bydd ar gael. Os bydd y tywydd yn wlyb neu'n oer, cynigir gweithgareddau eraill os oes modd (e.e. dod â defnyddiau byw i'r Ystafell Addysg i'w hastudio yn hytrach na mynd i'r pwll). Fel rheol, bydd modd i'r grŵp fwyta yn yr Ystafell Addysg os nad yw'r tywydd yn addas i fwyta yn yr awyr agored.
Dillad ac ati	Mae'n rhaid i'r holl ddisgyblion wisgo trwsus a dod â dillad sy'n dal dŵr gyda nhw, hyd yn oed yn yr haf, gan fod y tywydd yn gyfnewidiol iawn trwy'r flwyddyn. Mae'n hanfodol dod ag esgidiau addas – esgidiau cerdded neu rai â gwadnau gwrth-lithro da os oes modd. Does dim angen welingtons fel rheol – holwch wrth drefnu'r ymweliad. Hyd yn oed mewn tywydd cynnes, nid yw'n ddoeth gwisgo sgert neu shorts rhag ofn i chi gael eich pigo gan drogod, yn enwedig yn y coed – ceir adran ar wahân am drogod isod.

Peryglon traffig	Ceir cyfyngiad cyflymder o 10 m.y.a. o gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr. Dylai'r staff gadw golwg rhag ofn y bydd cerbydau nwyddau'n bagio. Ar ffyrdd y Stad, y cyfyngiad cyflymder cenedlaethol sydd mewn grym (60 m.y.a.). Ceir trefniadau diogelwch i sicrhau bod y disgyblion yn ymddwyn yn briodol ar y ffordd neu gerllaw iddi. Ceir asesiadau risg penodol a manwl ar gyfer y gwahanol raglenni addysgol.
Baw anifeiliaid mewn mannau cyhoeddus	Ni chaniateir cŵn nac anifeiliaid anwes eraill yn y Ganolfan Ymwelwyr ond fe'u caniateir ar y Stad. Os bydd eu hanifeiliaid yn maeddu mewn llefydd a ddefnyddir ar gyfer ymweliadau addysgol, gofynnir i'r perchnogion lanhau ar eu hôl a rhoi'r baw yn ddiogel yn y biniau priodol. Ni chaniateir cŵn yn y lle a ddefnyddir ar gyfer archwilio'r pwll. Mae croeso i gŵn cymorth yn y Ganolfan Ymwelwyr.
Trogod / Clefyd Lyme	Ceir trogod ar Stad Elan. Creaduriaid bach tebyg i gorynod ydyn nhw. Maen nhw'n barasitiaid ar ddefaid ac anifeiliaid eraill. Er mwyn peidio â chael eu brathu ganddynt, dylai'r grŵp wisgo dillad addas (gweler yr adran uchod). Ar ôl bod mewn mannau lle ceir trogod, gofynnir i'r grŵp frwsho'u trwsus i gael gwared ag unrhyw drogod sydd arnynt. Bydd yr aelod o'r staff sy'n gofalu am yr ymweliad yn cael taflen wybodaeth yn dweud sut i dynnu trogod os gwelir un ar y corff yn nes ymlaen. Mae posibilrwydd bach y gallech ddal clefyd Lyme pe bai trogen heintiedig yn eich brathu. Gellir trin clefyd Lyme â gwrthfiotigau. Ni wyddom am yr un achos o glefyd Lyme ar y Stad erioed.
Clefyd Weil	Clefyd a gludir mewn dŵr yw hwn. Fe'i trosglwyddir trwy friwiau ac anafiadau agored ar y croen a'i gario gan lygod mawr gwyllt. Pan fydd y grŵp yn gweithio â'u dwylo mewn dŵr, er enghraifft, wrth archwilio'r pwll, gofynnir iddynt edrych am friwiau diweddar ar eu dwylo cyn dechrau ar y gweithgaredd. Rhoddir menyg un-tro iddynt wisgo os bydd angen. Mae'r rhain i'w cael gan y Ceidwaid.
Ffliw Adar / Adar Gwyllt	Mae adar gwyllt yn cludo sawl afiechyd y gall pobl eu dal. Ni ddylai unrhyw aelod o'r grŵp gydio mewn aderyn marw o gwbl. Os gwelwch aderyn marw ar y safle, dywedwch wrth y Ceidwad Addysg a bydd yn trefnu i gael gwared â'r aderyn gan ddilyn canllawiau DEFRA
Planhigion a ffyngi niweidiol / gwenwynig	Ar rai adegau o'r flwyddyn efallai y bydd aeron gwenwynig ar goed a llwyni ar y Stad. Dylai'r ysgolion ddweud wrth y plant i gyd am beidio â phigo na bwyta aeron nac unrhyw rannau eraill o blanhigion. Mae rhai mathau o ffyngi (madarch a chaws llyffant) yn tyfu hefyd weithiau. Dylai'r ysgolion ddweud wrth y plant am beidio â phigo na bwyta ffyngi.

Map o'r Safle	Mae map ar gael sy'n dangos y llwybrau lle caniateir i bobl gerdded, llwybrau cerbydau a mannau parcio bysus. Holwch y Cydgysylltydd Addysg cyn dod os hoffech gopi.
Cadwraeth	Dylai staff sylweddoli mai adnodd dŵr ac ardal gadwraeth yw'r Stad yn bennaf. Gall hyn olygu y gellir cyfyngu ar fynediad i ran o'r safle ar fyr rybudd, e.e. os bydd aderyn yn dechrau nythu mewn man a ddefnyddir ar gyfer ymweliadau addysgol. Os oes modd, gwneir trefniadau eraill.

Y Mannau Mwyaf Peryglus	
Diogelwch Dŵr	Mae system o argaeau a chronfeydd dŵr ar y stad, pob un ohonynt dros 30 metr o ddyfnder, ynghyd ag afonydd, nentydd a phwll. Mae diogelwch ger y dŵr yn eithriadol o bwysig a sonnir am ymddygiad y disgyblion ger y dŵr cyn dechrau'r gweithgareddau. Os bydd wedi bwrw'n drwm, mae'n debygol na fydd modd mynd yn agos at y nentydd a'r afonydd hyd nes y bernir eu bod yn ddiogel. Mae gennym y mesurau rheoli isod mewn perthynas â pheryglon cyrsiau dŵr: • Mae gennym fwiau achub ac maent yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Ni fydd yn ofynnol i ddisgyblion fynd i mewn i'r pwll na'r afon **o gwbl** gan fod llwyfan archwilio ar y pwll a dim ond y Ceidwaid fydd yn mynd i mewn i'r afon os bydd yn ddiogel iddynt wneud hynny.
Cysylltiad ag anifeiliaid	Mae defaid yn pori'n rhydd ar y Stad. Weithiau maent yn dod i fyny at ymwelwyr yn y gobaith o gael eu bwydo. Dylai'r staff annog y grŵp i anwybyddu'r defaid a pheidio â'u bwydo. Mae llawer o bobl yn mynd am dro â'u cŵn ar y Stad a dylai'r staff wybod y gallent ddod ar draws cŵn sydd heb fod ar dennyn. Ceir arwyddion ar y gatiau sy'n arwain at fannau a ddefnyddir gan grwpiau addysgol yn gofyn i berchnogion cŵn glirio baw eu cŵn ond, gwaetha'r modd, nid yw pawb yn cymryd sylw ohonynt. Gofynnir i'r grŵp olchi eu dwylo'n dda yn y Ganolfan Ymwelwyr cyn bwyta neu yfed.

Gwybodaeth Berthnasol Arall
Mae'r asesiadau risg penodol ar gyfer y gweithgareddau a ddewisir gan y grŵp yn rhy fanwl i'w cynnwys yn y ddogfen hon ond gallwn eu hanfon atoch trwy'r post neu'r e-bost os dymunwch.

Llofnod	
Dyddiad	
Enw	FIONA WASE
Swydd yn y sefydliad	Ceidwad Addysg Amgylcheddol
Rhif ffôn	(01597) 810390
e-mail address	fiona@elanvalley.org.uk